

Porth Agored Tystysgrif i Raddedigion

DAPP –Rhaglen Cadarnhau
Gweithdy 1

Disgwyliadau /Rheolau o fewn gweithdai

Cyfrinachedd

Parch

Un person i siarad ar y tro

Ceisiwch gyfrannu a chanolbwyntio os
gwelwch yn dda

Cyflwyniad

Gweithdy 1

- Cyflwyniadau a gosod yr olygfa
- Tasg 1 yn ofynnol i dystiolaethu ymarfer adfyfriol
- Theorïau a modelau adfyfrio
- Y Portffolio: Tasg 1 rhan (a) Adolygiad Datblygiadol
- Canlyniadau Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru
- Deallusrwydd Emosiynol
- Ysgrifennu'n adfyfyriol-feirniadol

Trefn y Gweithdai

- **Gweithdy 1** - Tasg 1, Rhan a- Adolygiad Datblygiadol: Canlyniadau Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru, Adfyfrio ac Adfyfrio Beirniadol.
- **Gweithdy 2** – Tasg 2 – Arsylwad o Ymarfer: Canlyniadau Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru, Cydweithio, Sgiliau Cyfathrebu, Cyd-destun Cymreig, Gwerthoedd a'r Côdau Ymarfer Proffesiynol.
- **Gweithdy 3** - Tasg 3 – Diogelu: Canlyniadau Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru, deddfwriaeth, theorïau, dadansoddi wrth asesu, cydweithio a gwneud penderfyniadau proffesiynol.
- **Gweithdy 4** – Tasg 4 - Diogelu o fewn maes gwahanol i'ch prif faes gwaith. Tasg 1, Rhan b – Adolygiad Datblygiadol, meini prawf marcio, gwybodaeth am gyflwyno. Sesiwn 1 i 1 gyda'r hyfforddwr am gyngor, cefnogaeth ac arweiniad.

Dal i fyny

- **Mentoriaid**- A ydych wedi cwrdd â'ch mentoriaid? Os ddim, trefnwch gyfarfod cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda. Os nad oes mentor wedi ei drefnu ar eich cyfer, gadewch i'ch cydlynnydd wybod.
- **Y Cytundeb Dysgu** – Dylid cwblhau'r cytundeb dysgu a'i arwyddo o fewn y sesiwn mentora cyntaf.
- **Cofrestru** – A ydych wedi cwblhau'r broses gofrestru gyda'r Brifysgol? Sicrhewch eich bod wedi cael cadarnhad cofrestru gan y Brifysgol a'ch bod yn medru defnyddio Moodle.
- **Niwroamrywiaeth** – Os oes gennych anghenion dysgu unigol/niwroamrywiaeth eich cyfrifoldeb chi yw dweud wrth y brifysgol, eich cyflogwr a'r adran hyfforddi.
- **Dyddiad Cyflwyno**

Gofynion y Portffolio: Gweler y llawlyfr am fwy o fanylion



Cyfrinachedd –Peidiwch a defnyddio llythyren nac enwau ffug wrth ddisgrifio unigolion na chynnwys gwybodaeth allai arwain at adnabod yr unigolion hynny. Cyfeiriwch at unigolion drwy ddefnyddio **rhifau** yn unig. **Peidiwch** enwi'r awdurdod lleol.



Llen-ladrad –wrth ei gyflwyno bydd y portffolio yn dangos cyfradd uchel o len-ladrad ac mae'r Brifysgol yn ymwybodol o hyn.



Gwnewch yn siŵr eich bod yn ateb y cwestiwn yn llawn- gwiriwch y meini prawf marcio am yr hyn sydd yn ddisgwyliedig



Cadwch at y cyfrif geiriau (+/- 10%)

Canlyniadau Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae'r portffolio yn seiliedig ar 3 canlyniad dysgu GCC:

Bydd pob tasg o fewn y portffolio yn gofyn i chi dystiolaethu gwahanol agweddau o'r 3 canlyniad mewn perthynas â phob tasg (gweler atodiad 4 o'r llawlyfr)

Y canlyniadau dysgu:

1. Dadansoddi wrth asesu i lywio ymyriadau
2. Cydweithio â phobl sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill
3. Cymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth

Tasg 1 – Adolygiad Datblygiadol (Rhan a)



- Mae gan tasg 1 ddwy ran (a & b).
- Bydd rhan a) yn cael ei gwblhau ar **ddechrau**’r rhaglen.
- Rhaid i chi nodi o fewn y dasg hon eich bod wedi trafod eich anghenion datblygiadol proffesiynol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod gyda'ch mentor a/neu oruchwyliwr/rheolwr llinell.
- **Rhaid** ymgorffori'r defnydd o fodel adfyriol yn y **ddwy** ran o'r dasg, a & b.
- Cwblwheir tasg 1 rhan b) ar **ddiwedd** y rhaglen.

Y Cwestiwn-Tasg 1 Rhan a

Defnyddiwch **fodel adfyfyriol**, i fyfyrio yn feirniadol ar eich datblygiad proffesiynol ers cymhwyso'n weithiwr cymdeithasol

Ar sail hyn, ac wrth drafod â'ch mentor/goruchwyliwr/rheolwr llinell, ewch ymlaen i nodi a chyfiawnhau eich anghenion datblygiadol i'r dyfodol dros y 12 mis sydd i ddod o dan bob un o 3 canlyniad dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) a restrir isod, gan roi o leiaf un angen datblygiadol ar gyfer pob un o'r canlyniadau dysgu isod:

1. Dadansoddi wrth asesu er mwyn hysbysu ymyriadau.
2. Cydweithio â phobl sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill.
3. Cymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth.

Rhaid i'r dasg hon gyfeirio at sut mae'r oruchwyliaeth, yr hyfforddiant, y dysgu a'r ymchwil wedi dylanwadu ar eich ymarfer, a sut y byddant yn gwneud hynny.

(gweler atodiad 4 yn y Llawlyfr am fanylion pellach).


Adfyfyrio

Ymarfer 1

Pam for adfyfyrio mor hanfodol i waith cymdeithasol?



Ymarfer Adfyfyriol o fewn Gwaith Cymdeithasol



Mae Adfyfyrio Beirniadol yn agwedd allweddol o broffesiynoldeb. Mae'n weithgaredd DPP a all wneud y gorau o ddysgu drwy:

- Wella atebolrwydd
- Gefnogi damcaniaethu – gan ddefnyddio damcaniaethu mewn ymarfer a thynnu damcaniaethu allan o ymarfer
- Wella ymarfer – yn enwedig ymarfer cydweithredol
- Sicrhau y gwneir penderfyniadau moesegol mewn ymarfer cymhleth
- Cynyddu ‘craidd’ a gwytnwch yr ymarferwr

Agweddau Allweddol o Ymarfer Adfyfyriol-Feirniadol

- Gall defnyddio model/au o ymarfer adfyfyriol helpu i strwythuro eich gwaith.
- Ceisiwch osgoi bod yn rhy ddisgrifiadol wrth ysgrifennu.
- Cyflwynwch pa fodel adfyfyriol rydych chi'n ei ddefnyddio a'i gyfeirio'n gywir.
- Rhaid integreiddio'r model adfyfyriol yn llawn trwy gydol tasg 1 yn rhan a & b.
- Mae agweddau allweddol ar ymarfer adfyfyriol-feirniadol, sef: emosiynau a theimladau, dynameg pŵer a phŵer, gwerthoedd a moeseg, lefel eich gwybodaeth a'ch sgiliau.

Canlyniadau Dysgu Tasg 1 Rhan a

1. Dadansoddi wrth asesu i lywio ymyriadau

1.5. Adfyfyrio'n feirniadol i werthuso dadansoddiad eich hun mewn asesiadau gwaith cymdeithasol

2. Cydweithio ag unigolion sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill

2.3. Adfyfyrio'n feirniadol ar waith cydweithredol ei hun

3.2. Rheoli eich rôl fel gweithiwr cymdeithasol mewn sefyllfaoedd gynyddol gymhleth

3. Cymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth


3.7. Ymarfer atebolrwydd proffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth.

Canlyniadau Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)

- Mae pob tasg yn gofyn i ddysgwyr fodloni canlyniadau dysgu GCC sydd wedi'u pennu ar gyfer y dasg.
- Yn ogystal, mae angen i ddysgwyr ateb pob agwedd o'r cwestiwn gan gwrdd â'r meini prawf marcio.
- Byddwn yn ystyried y canlyniadau dysgu penodol ar gyfer Tasg 1 Rhan A, a edrych ar sut y gallant gyflawni'r canlyniadau hyn wrth ysgrifennu'r dasg yn y portffolio.



Deallusrwydd Emosiynol



“A form of social intelligence that involves the ability to monitor one’s own and others’ feelings and emotions, to discriminate among them, and to use this information to guide one’s own thinking and action”

Gan gynnwys:

- canfyddiad o emosiwn
- y gallu i resymu gan ddefnyddio emosiynau
- y gallu i ddeall emosiwn
- y gallu i reoli emosiynau

Salovey a Mayer 1990

Ymarfer 3 – Deallusrwydd Emosiynol



- Pam rydych chi'n meddwl ei fod yn bwysig i adnabod eich emosiynau mewn perthynas â'ch gwaith?
- Efallai eich bod am ystyried beth allai fynd o'i le, yr effaith bosibl a'r canlyniadau i unigolion yr ydym yn gweithio â hwy, a'r effaith ar wneud penderfyniadau proffesiynol?

Theori Adfyfyriol

Donald Schön - The Reflective Practitioner (1983)

“Reflection in action”

“Reflection on action”

Wedi ei addasu gan Killian a Todnem (1991) sydd wedi ychwanegu:

“Reflection for action”

Cofiwch, **damcaniaeth** adfyfyrio yw Schön, – mae’n tynnu sylw at yr angen i adfyfyrio yn hytrach na darparu model i allu gwneud hynny

The Stages of Reflection

<https://youtu.be/KOldHp9fwmw?feature=shared>


Camau Adfyfyrio

https://youtu.be/BSs_K2VEnDU?feature=shared



Model Adfyfyrio Borton

Borton's (1970) reflective framework



What?		Description of what has happened. 
So What?		Why is it significant? What do I understand better? 
Now What?		Insights gained. What are my future learning needs? AND/OR What would I do differently?

Based on: Borton 1970 and Driscoll 1994 (cited in Cottrell 2011 p.221).

Mae Kolb yn darparu model o ddysg oedolion arbrofol sy'n addasu'n rhwydd fel model adfyfrio

Y Profiad Diriaethol/

Arsylwi Adfyfyriol

Cysyniadu Haniaethol

Arbrofi Gweithredol


Beth oedd y digwyddiad?

Beth oedd eich meddyliau a'ch teimladau chi ynghylch y profiad

Sut allwch chi ddefnyddio eich profiadau blaenorol a'ch gwybodaeth i'ch cynorthwyo i wneud synnwyr o'r profiad hwn?

Pe byddai hyn yn digwydd eto, beth fydddech chi'n ei wneud yn wahanol?


Pa wybodaeth ychwanegol ydych chi ei hangen?



Cylch Tri Cham Jasper (ERA),(2013)

Mae tri cham Jasper, cylch (ERA) yn cynnwys:

- Profiad
- Adfyfyrio
- Gweithredu



Dechreuwch gyda'r profiad. Gall y profiad hwn fod yn gadarnhaol neu'n negyddol, neu gymysgedd o'r ddau.

Adfyfyriwch ar yr hyn sydd wedi digwydd. Bydd hyn yn eich galluogi i feddwl trwy'r profiad, archwilio meddyliau a theimladau am yr hyn a ddigwyddodd a phenderfynu ar y camau nesaf.

Gweithredwch. Bydd yr hyn a wnawn o ganlyniad i brofiad yn wahanol yn dibynnu ar yr unigolyn.

Bydd y weithred hon yn arwain at brofiad arall a bydd y cylch yn parhau.

Jasper, M. (2013). *Beginning Reflective Practice*. Andover: Cengage Learning.

Cychwyn Arni

Yn Nhasg 1 Rhan (a) gallech ystyried, er enghraifft:

- Beth sydd wedi eich cefnogi i ddod yn ymarferydd mwy hyderus, cymwys a gwydn?
- A oes rhwystrau i hyn?
- Pa feysydd o'ch datblygiad proffesiynol yn y dyfodol ydych chi'n meddwl fydd yn bwysig i'r bobl/teuluoedd rydych chi'n gweithio gyda nhw a gweithwyr proffesiynol eraill rydych chi'n gweithio gyda nhw?
- Nodwch a chyfiawnhau'r anghenion datblygiadol hyn yn y dyfodol o dan 3 canlyniad dysgu GCC.
- Ystyriwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r anghenion dysgu hyn? E.e. trwy hyfforddiant, dysgu, goruchwylio, ymchwil ac ati.



Terminoleg

Nodi

- Nodwch y pwyntiau allweddol. Peidiwch â chynhyrchu rhestr yn unig, mae angen i chi nodi perthnasedd a / neu swyddogaeth y peth / au rydych wedi'u nodi.
- Penderfynwch beth yw'r pwyntiau allweddol i'w hystyried a'u goblygiadau.

Cyfiawnhau

- Darparwch corff o dystiolaeth i gefnogi eich syniadau a'ch safbwyntiau.
- Darparwch reswm dros safbwynt neu ddadl.
- Mae angen i chi ddarparu dystiolaeth ac esboniad ategol o'ch safbwynt sy'n dangos sail ddigonol.



Canlyniadau Dysgu Tasg 1 Rhan a (a b)

1. Dadansoddi wrth asesu i lywio ymyriadau

Canlyniad Dysgu

1.5. –Adfyfyrio'n feirniadol i werthuso dadansoddiad eich hun mewn asesiadau gwaith cymdeithasol.

Mae rhagor o fanylion am y meini prawf Asesu i'w gweld yn atodiad 4 y llawlyfr.



Dadansoddi wrth Aseu

Er mwyn cynnal asesiad sy'n gywir ac yn rymusol mae angen i weithwyr ddatblygu ystod o sgiliau gan gynnwys:

- Cyfathrebu
- Negodi (negotiation)
- Gwneud Penderfyniadau

Dadansoddi wrth Asesu

Yn arwain at:

- Gynllunio gwaith yn y dyfodol
- Gwneud synnwyr o'r sefyllfa
- Greu darlun o'r hyn sy'n digwydd
- Ddeall y sefyllfa o safbwynt tystiolaeth ymarfer
- Ddeall cymhelliant, cryfderau ac adnoddau
- Ddealltwriaeth o effaith diwylliant, ethnigrwydd a chrefydd ar anghenion darpariaeth gwasanaeth
- Draford pryderon, dabtblygiad a newid
- Hwyluso rhannu gwybodaeth
- Lywio penderfynniadau diogelu
- Ddyrannu gwasanaethau
- Fesur cynnydd dros amser
- Gyfrannu at reoli a datblygu gwasanaethau

1. Dadansoddi wrth Asesu i Lywio Ymyriadau

Ymarfer 3

Cwestiwn 1

Mewn grwpiau bach;

- Defnyddiwch fodel myfyriol o'ch dewis i edrych yn ôl ar yr hyn rydych wedi'i gyflawni hyd yma o dan y canlyniad dysgu: dadansoddi wrth asesu i lywio ymyriadau. Yn seiliedig ar hyn, ceisiwch nodi a chyfiawnhau eich anghenion dysgu dros y 12 mis nesaf.
- **Ystyriwch:** Oruchwyliaeth, dysgu, hyfforddiant, ymchwil a sut mae'r rhain wedi cyfrannu at eich datblygiad proffesiynol?
- Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi gofnodi eich atebion yn y llyfr gwaith er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol.



2. Cydweithio ag unigolion sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill

Canlyniad Dysgu

2.3. Adfyfyrio'n feirniadol ar waith cydweithredol ei hun

3.2. Rheoli eich rôl fel gweithiwr cymdeithasol mewn sefyllfaoedd gynyddol gymhleth.

Mae rhagor o fanylion am y meini prawf Asesu i'w gweld yn atodiad 4 y llawlyfr.

Gwytnwch a Chydweithio

Bu i ymchwil a wnaed mewn perthynas â datblygiad proffesiynol gweithwyr sydd newydd gymhwyso adnabod dau brif ffactor sy'n sicrhau fod gweithwyr cymdeithasol yn:

- Fwy gwydn yn erbyn straen
- Meithrin eu llesiant eu hunain a llesiant eraill
- Dod yn “weithwyr cymdeithasol sy'n hedfan” yn dilyn eu blwyddyn gyntaf o ymarfer

Y ddau ffactor yw:

- Deallusrwydd Emosiynol
- Adfyfyrio

Grant a Kinman (2009)




Sgiliau Cydweithio

Sgiliau Rhyngbersonol

- Sgiliau Cyfathrebu (trafod, gwranddo, mynegi, delio â gwrthdaro).
- Sgiliau i reoli perthnasau rhyngbersonol.
- Empathi
- Sgiliau ymarfer cyfannol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Sgiliau i arddangos ymddiriedaeth, parch a gonestrwydd.
- Gwerthfawrogi adborth gan unigolion/teuluoedd/gofalwyr ar ein hymarfer

Sgiliau Personol

- Hunanymwybyddiaeth
- Atgyrchedd
- Sgiliau i allu ymarfer yn hyderus
- Ymwybyddiaeth a deallusrwydd emosiynol
- Gwerthoedd cadarn
- Sgiliau datrys problemau
- Meddwl yn feirniadol
- Ymdeimlad o gyfrifoldeb





2. Cydweithio ag unigolion sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill

Ymarfer 3 - Cwestiwn 2

Mewn grwpiau bach:

Defnyddiwch fodel adfyfyriol i:

- Edrych yn ôl ar eich profiad hyd yma o gydweithio ag unigolion/teuluoedd a/neu ofalwyr yn ogystal â gweithwyr proffesiynol eraill.
- Yn seiliedig ar hyn ceisiwch nodi a chyfiawnhau eich anghenion dysgu o dan y canlyniad dysgu hwn dros y 12 mis nesaf.
- **Ystyriwch:** Oruchwyliaeth, dysgu, hyfforddiant, ymchwil a sut mae'r rhain wedi cyfrannu at eich datblygiad proffesiynol?

3 - Cymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth

Canlyniad Dysgu

3.7. - Ymarfer atebolrwydd proffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth.

Mae rhagor o fanylion am y meini prawf Asesu i'w gweld yn atodiad 4 y llawlyfr.

Atebolrwydd a Barn Broffesiynol

Canlyniadau dysgu - sut i'w cyflawni:

- **Goruchwyliaeth** – Adfyfyrio'n feirniadol ar ymarfer, atebolrwydd, cefnogaeth, a datblygiad proffesiynol
- **Hyfforddiant** – mentora, cyrsiau hyfforddi i'w ymgymryd nawr a'i trefnu yn y dyfodol
- **Ymchwil** – cyfnodolion, safleoedd, ffynonellau eraill, deunyddiau cyfredol (5-10 mlynedd diwethaf)
- **Dysgu** – cysgodi, mentora, gweithio gydag ymarferwyr mwy profiadol, dysgu beth mae timau/asiantaethau eraill yn ei wneud.



Atebolrwydd a Barn Broffesiynol

Mentora

- Nodi anghenion datblygiadol dros y 12 mis nesaf o dan y 3 canlyniad dysgu GCC
- Lle i fyfyrrio ac archwilio
- Trafod tasgau a gosod terfynau amser
- Cynllunio arsylwad tasg 2
- Trafod achos diogelu tasg 3
- Meithrin hyder a chymhwysedd



Diben a Swyddogaeth Goruchwyliaeth

- Sicrhau ein bod ni a'r unigolion rydym yn gweithio gyda nhw yn ddiogel
- Dylai goruchwyliaeth greu gofod adfyfyriol i brosesu profiadau; cynyddu dealltwriaeth a datblygu'r gallu a sgiliau i archwilio a deall yr hyn sy'n digwydd i unigolion.





Diben a Swyddogaeth Goruchwyliaeth

- Goruchwyliaeth sicrhau bod ymarferwyr yn cynnal safonau proffesiynol ac egwyddorion ymarfer gorau a bod gwaith a ddisgwylir gan y sefydliad yn cael ei ddehongli trwy lens broffesiynol a'i gyflwyno gan weithwyr chymwys (Payne, 1996).

3-Cymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth


Ymarfer 3 - Cwestiwn 3

Mewn grwpiau bach;

- Defnyddiwch fodel adfyfyriol o'ch dewis i edrych yn ôl ar yr hyn rydych wedi'i gyflawni hyd yma o dan y canlyniad dysgu: cymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth.
- Yn seiliedig ar hyn, ceisiwch nodi a chyfiawnhau eich anghenion dysgu dros y 12 mis nesaf.
- **Ystyriwch:** Oruchwyliaeth, dysgu, hyfforddiant, ymchwil a sut mae'r rhain wedi cyfrannu at eich datblygiad proffesiynol?



Datblygu Ymarfer Adfyfyriol



Cwestiynnau i Annog Adfyfyrio Beirniadol

Beth mae fy nghyfrif o'r sefyllfa
yn ei awgrymu am:

Fy nelfrydau neu werthoedd
craidd?

Fy nghredoau?

Fy safbwynt amdanaf i fy hun ac
eraill?


Yr hyn rwy'n ei gredu am
broffesiynoldeb?



Annog Adfyfrio Beirniadol

Y cyd-destun:

- Risg, ansicrwydd, newid, cymhlethdod
- Mae'n rhaid i ymarfer ddelio a sefyllfaoedd na ellir eu rhagweld
- Damcaniaethau haniaethol sy'n annigonol ar gyfer ymarfer proffesiynol
- Heriau a gyflwynir i werthoedd gwaith cymdeithasol drwy ystyriaeth o adnoddau economaidd ac ati
- Rhaid ail-greu gwybodaeth am ymarfer mewn perthynas â chyd-destunau sy'n newid




Lefelau Ysgrifennu Adfyfyriol (Hatton and Smith 1995)


- ▶ **Disgrifiadol**
- ▶ **Disgrifiadol adfyfyriol:** disgrifio digwyddiadau a'u hystyried yn ddyfnach
- ▶ **Ymddiddanol adfyfyriol:** camu yn ôl o'r sefyllfa, edrych ar ei rôl ei hun a damcaniaethu ynghylch yr hyn y gellid bod wedi'i wneud yn wahanol. Dadansoddi'r sefyllfa gan wneud cysylltiadau ehangach ac edrych ar wahanol bersbectifau.
- ▶ **Adfyfyriol Feirniadol:** fel yr uchod ond hefyd ystyried y cyd-destun cymdeithasol-wleidyddol (yn enwedig pŵer).



Awgrymiadau

- Dechreuwch dasg 1 rhan a) cyn gynted ag y bo modd am ei fod yn adlewyrchu dechrau eich blwyddyn cadarnhau, mae'n anodd iawn felly ysgrifennu'r dasg yma tuag at ddiwedd y flwyddyn.
- Atebwch y cwestiwn yn llawn.
- Integreiddio a chyfeirio at fodel adfyfyriol yn rhan A a B.
- Darparu cyfeiriad a dolen at dystiolaeth drwy gydol y dasg.
- Gwnewch yn siŵr nad ydych yn canolbwyntio ar yr hyn rydych wedi'i wneud ers cymhwyso hyd yn hyn, dim ond tua 25% o'r dasg ddylai hyn fod, a 25% ar gyfer pob un o'r canlyniadau 3 dysgu wrth edrych ymlaen.
- Sicrhewch eich bod yn cyfeirio'n glir at feysydd datblygu yn y dyfodol o dan bob un o'r 3 canlyniad dysgu drwy nodi a chyfiawnhau beth yw'r rhain a sut rydych yn bwriadu eu bodloni e.e. dysgu, hyfforddi, goruchwyliaeth ac ymchwil ac ati.





Paratowch ar gyfer gweithdy 2

Ystyriwch achos addas gyda'ch mentor o flaen llaw y gallech ei ddefnyddio ar gyfer Arsylwad Tasg 2. Gellir dod o hyd i ganllawiau yn y portffolio o dan Dasg2 yn ogystal a'r Llawlyfr.

Gwerthusiad

- Bydd yr hyfforddwyr yn eich gadael am 5 munud i chi werthuso'r diwrnod
- A fyddai modd i un ohonoch gymryd nodiadau o'r adborth gan y grŵp a'i drosglwyddo i'r hyfforddwr (naill ai teipiwch yn y blwch trafod os yw ar-lein neu ar siart fflip os wyneb yn wyneb)
- Diolch

Beth weithiodd yn dda yn y gweithdy yn eich barn chi/beth oedd yn ddefnyddiol i chi heddiw?

A oedd unrhyw beth nad oedd yn gweithio cystal?

A oes gennych unrhyw awgrymiadau am ffyrdd y gallwn wella'r gweithdai hyn?